


# Blwyddyn 3 a 4


Mrs. Sheena Dorkins - Mrs. Ffion Hughes - Miss. Catrin Morris



## THEMA'R TYMOR

**Tymor yma ein thema fydd  
'Môr a Morwyr'**

Rhoddwyd cyfle i'r plant benderfynu beth fyddai gwaith y tymor yma. Casglwyd nifer o'u syniadau am yr hyn yr hoffent ei ddysgu yn ystod y tymor. Bydd y thema yn ein galluogi i ddysgu am hanesion y môr a'i morwyr, hanes môr-ladron enwog fel Barti Ddu a Hari Morgan. Byddem yn astudio arfordiroedd a moroedd y byd, gan ddatblygu sgiliau lleoli ar fap. Bydd y gân 'Ar Lan y Môr' yn sbardun i'n gwaith Celf a Cherddoriaeth, a byddem yn astudio capeli ac eglwysi a'r gwahaniaeth rhyngddynt.



## GWAITH CARTREF

Bydd gwaith cartref yn cael ei rannu ar Ddydd Gwener a bydd gofyn iddynt ei ddychwelyd i'r ysgol ar Ddydd Llun.

Ar benwythnosau pan na fydd gwaith cartref i'r plant, yna, gellir ymchwilio i'r thema, ymarfer tablau targed, edrych ar wefannau defnyddiol yn ogystal a darllen.

## COFNOD DARLLEN

Er mwyn cefnogi datblygiad eich plentyn, cyngorir chi i gyd-ddarllen am rhwng 5-10 munud yn ddyddiol.

Bydd y plant yn dod a'u Cofnod Darllen adref ar Ddydd Gwener a'i ddychwelyd i'r ysgol ar Ddydd Llun.

## ADDYSG GORFFOROL

Yn ystod y gwersi Addysg Gorfforol y tymor yma bydd plant Blwyddyn 3 a 4 yn gwella ffitrwydd ac yn datblygu sgiliau antur drwy gyfeiriannu.

Gofynnir yn garedig i'r plant ddod a'u dillad Addysg Gorfforol i'r ysgol ar Ddydd Llun a'u gadael yn yr ysgol am yr wythnos.

## TRIPIAU/GWEITHGAREDDAU

Fel rhan o'n gwaith maes byddwn yn ymweld â thraeth Pwllheli.

Byddem yn ethol aelodau newydd i cynrychioli'r dosbarth ar y Cyngor Ysgol.



Byddem yn ysgrifennu disgrifiad a chyfarwyddiadau a yn deillio o'r llyfr 'Barti Smarti' gan Caryl Parry Jones. Bydd cyfle i ni ysgrifennu llythyr personol ag adroddiad papur newydd wedi i ni ddarllen y llyfr 'The Man Whose Mother Was a Pirate' gan Margaret Mahy. Yn ogystal byddem yn cymharu nodweddion a phriodweddau rhai defnyddiau naturiol a gwneud.

